**CYNGOR**

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Gwener, 14 Chwefror 2020** |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, S.apDafydd, A.P.H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, H.Jenkins, A.Evans, C.Griffiths, C.Morris, A.Bradshaw, C.Furlow-Harris a/ac A.Manchipp |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Cyflwyno |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER.**

Gyda thristwch mawr yr hysbysodd y Maer y cyngor am farwolaeth y cyn-Gynghorydd Stan Mason, a fu'n cynrychioli Ward Margam, ac a oedd yn chwaer i'r Cynghorydd Sheila Penry.

Fel arwydd o barch, safodd y cyngor am funud o ddistawrwydd.

Roedd y Maer yn falch o gyhoeddi y byddai Mrs Louise Fleet JP yn olynu D Byron Lewis fel Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg o 16 Mawrth 2020.

2. **ADOLYGIAD ETHOLIADOL: CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad uchod gan nodi nad oedd y goblygiadau a ddeilliai o leihau'r oedran etholiad wedi'u cynnwys yn y cynigion na hefyd y cynnydd yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r mewnlifiad o fyfyrwyr.

Teimlai rhai Aelodau fod y cynigion yn effeithio ar gymunedau'r cymoedd mewn modd anghymesur drwy leihau cynrychiolaeth aelodau ac effeithio'n andwyol ar hunaniaethau'r cymoedd.  Nid oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i'r effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar y preswylwyr.

Roedd rhai Aelodau'n anhapus â'r argymhellion a gafwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn arbennig:

- Y bwriad i alinio wardiau Pelenna, Bryn a Chwmafon.
- Y bwriad i gyfuno wardiau Glyn-nedd a Blaengwrach.
- Y bwriad i gyfuno wardiau Pontardawe a Threbannws.
- Y cynnig ar gyfer ward Aberafan.

Roedd atodiad wedi'i ddosbarthu, cyn y cyfarfod, yn amlinellu pryderon Grŵp Plaid Cymru ac yn cynnig diwygiad i'r argymhellion a gafwyd yn yr Adroddiad ar y cyd.

Atgoffwyd yr Aelodau fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi gan y Comisiwn Ffiniau ac na ellid ystyried lefelau amddifadedd, troseddu ac ati.  Roedd y cynigion yn seiliedig ar niferoedd y boblogaeth.

Cafodd y diwygiad a gynhwyswyd yn yr atodiad ei gyflwyno yn y cyfarfod.  Methodd hyn ac ystyriwyd y prif argymhelliad fel y'i cynhwyswyd yn yr Adroddiad ar y Cyd.

**PENDERFYNIAD:** Dylid awdurdodi'r Prif Weithredwr i gyflwyno ymateb i'r Comisiwn Ffiniau yn seiliedig ar yr asesiad gan swyddogion a gynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

3. **BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)**

**PENDERFYNWYD:** 1. Nodi cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio a chryfhau llywodraeth leol a gwella trefniadau etholiadol, fel a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).
2. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y dylid cymeradwyo'r sefyllfa, fel y'i nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.
3. Y bydd y Prif Weithredwr yn cael ei awdurdodi i ymateb yn ffurfiol i'r cynigion ar ran y cyngor hwn drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

4. **NEWIDIADAU I GYMESUROLDEB GWLEIDYDDOL AC AELODAETH O'R CABINET, Y PWYLLGORAU AC O GYRFF ALLANOL**

**PENDERFYNWYD:** Bod y canlynol, fel y'u nodir yn yr atodiadau i'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu cymeradwyo;

- Dyrannu seddi'n gymesur i'r grwpiau gwleidyddol fel y'u nodir yn Atodiad A.
- Lleihau maint y Cabinet o ddeg aelod o'r Cabinet i naw aelod o'r Cabinet;
- Portffolios gwleidyddol arfaethedig y naw Aelod o'r Cabinet fel y'u nodir yn Atodiad B;
- Penodi'r Cyng. E V Latham yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros y Strydlun a Pheirianneg.
- Y newidiadau i aelodaeth pwyllgorau fel y'u nodir yn Atodiad C;
- Cynrychiolaeth y cyngor ar gyrff allanol fel y'i nodir yn Atodiad D.

5. **NEWIDIADAU I DREFNIADAU LLYWODRAETHU GWEITHREDOL PRIF GYNGHORAU - DOGFEN YMGYNGHORI LLYWODRAETH CYMRU**

**PENDERFYNIAD:** Bydd y ddogfen ymgynghori – "Newidiadaui Drefniadau Llywodraethu Gweithredol mewn Prif Gynghorau" fel y'i nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei nodi, ynghyd â'r dyddiad cau ar gyfer ymgynghori, sef 27 Chwefror 2020.

6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Derbyniodd y cyngor gyflwyniad, gan y Cadeirydd, ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2018/19.

**PENDERFYNIAD:** Bydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2018/19 yn cael ei nodi.

**CHAIRPERSON**